Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Cyfarfod: Bwrdd Plismona
Lleoliad: Ystafell Gynadledda SCHTh
Dyddiad: 23 Mai 2017
Amser: 14:00 – 16:00

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Prif Gwnstabl Mark Collins (PG)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (PSA)<br>Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (CM) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Arol. Anthony Evans, Swyddog Staff (AE)<br>Stuart Davies, Cwnstabl (SD)<br>Mrs Claire Bryant, Swyddog Cydymffurfio, SCHTH (CB) |
| **Ymddiheuriadau:** | Dirprwy Brif Gwnstabl Darren Davies (DBG)<br>Miss Mair Harries, Cymorth Gweithredol, SCHTh (MH) |

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU AR GYFER CYFARFOD 9/05/2017 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **Cynnydd** |
| **PB 2156** | **SCHTh i gysylltu â PSA am ddal data arbedion Cwmni TGCh yr heddlu.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2157** | **Yr Heddlu i ymgysylltu â'r Swyddog Amrywiaeth mewn perthynas â g ohebiaeth gan yr Heddlu am Safonau'r Gymraeg.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2158** | **SR i anfon yr ohebiaeth at AE gyda'r bwriad y bydd yr Heddlu'n enwi cynrychiolydd.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2159** | **Yr Heddlu i gysylltu â'r Swyddog Cyswllt Ysgolion am hysbysu pobl ifanc am yr hyn a ddaw o ganlyniad i boeri ar Swyddogion yr Heddlu.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2160** | **Yr Heddlu i roi costau hyfforddi i'r Bwrdd a chynllun blaenoriaethu o fewn 4-6 wythnos.** | **Cyfredol** |

| PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 09/05/2017 | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Penderfyniad** | **Crynodeb o'r Penderfyniad** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB T2 33** | **Bod Heddlu Dyfed-Powys yn dal i gyfrannu'n ariannol i Brake i gefnogi gwasanaethau gwrthdrawiadau ffyrdd ar gyfer 2017/18.** | **PSA** |
| **PB T2 34** | **Bod SCHTh yn gweithredu rhaglen graffu gefnogol o fewn yr Heddlu.** | **CB** |
| **PB T2 35** | **Bod adnodd penodol yn cael yn cael ei ddyrannu am gyfnod o 10 wythnos, mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Ystadau a'r Prif Swyddog Cyllid i ddatblygu'r achos busnes i Ymddiriedolaeth** | **PSA** |

| | | |
|---|---|---|
| | **Gwasanaeth Ambiwlans Cymru adleoli ym Mhencadlys Heddlu Dyfed-Powys.** | |
| **PB T2 36** | **Bod y Bwrdd Plismona'n mabwysiadu Model Busnes 5 Achos Busnes y Trysorlys** | **PSA** |

**2. Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Plismona a gynhaliwyd ar 24 Ebrill a materion yn codi**

Nodwyd bod fersiwn diwygiedig o gofnodion y cyfarfod blaenorol wedi'u dosbarthu cyn y cyfarfod. Nododd CM bod hi wedi gadael y cyfarfod cyn y drafodaeth ynghylch hyfforddiant iechyd a diogelwch a gofynnodd am i hyn gael ei adlewyrchu yn y cofnodion. Cyflwynodd AE dabl sy'n diweddaru'r defnydd o wasanaethau Oedolion Priodol. Nodwyd bod y ffigurau yn dangos gwariant blynyddol a ragwelir o £100,000. Cynigiodd y CHTh sicrwydd ei fod yn hyderus bod y gwasanaethau'n cael eu defnyddio'n briodol ac nad oedd eisiau peidio â'u defnyddio, ond yn hytrach i annog eu defnyddio'n effeithlon. Cytunwyd y gellid rhyddhau Cam gweithredu (PB 2150) oedd heb ei wneud, gan y byddai'r Bwrdd Comisiynu'n parhau i'w fonitro. Cafwyd trafodaeth ynghylch y defnydd o wasanaethau gwirfoddol. Roedd CHTh o'r farn y byddai'n ddoeth i adolygu'r gwasanaethau gwirfoddol a thaledig a ddefnyddiwyd. Byddai'r data hwn wedyn ar gael i'r Bwrdd Comisiynu i'w ddefnyddio wrth ystyried contractau yn y dyfodol.

**Cam gweithredu: Adolygu'r defnydd o wasanaethau Oedolion Priodol i fod ar gael ar gyfer y cyfarfod Bwrdd Plismona nesaf, gan gynnwys gwasanaethau gwirfoddol a thaledig, a chostau teithio.**

PB 2153 – Cyfle secondiad y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol lleol. Cytunwyd y byddai'r cyfle yn cael ei hysbysebu o fewn y rhaglen datblygu dawn 'Llywio'. Byddai CM yn symud y mater yn ei flaen.

PB 2156 – Data arbedion Cwmni TGCh yr Heddlu. Nododd CHTh bod anghysondebau yn yr arbedion a wnaed, yn erbyn yr arbedion a ddyfynnwyd gan Gwmni TGCh yr Heddlu. Dywedodd CHTh ei fod yn bwriadu codi'r mater drwy Fwrdd y cwmni.

**Cam gweithredu: CHTh i godi sylwadau am ddata arbedion Cwmni TGCh yr Heddlu gyda Bwrdd Cwmni TGCh yr Heddlu.**

PB 2157 - gohebiaeth gan yr Heddlu am Safonau'r Gymraeg. Cadarnhawyd bod e-bost 'Pob Defnyddiwr' wedi cael ei anfon at bob aelod o staff, i'w atgoffa am ofynion y Safonau.

PB 2158 -gohebiaeth y Coleg Plismona am Hyrwyddwr Tystiolaeth. Cadarnhawyd bod AE wedi dweud wrth y Coleg Plismona mai'r DBG oedd yn arwain ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys.

PB 2159 - hysbysu pobl ifanc am yr hyn a ddaw o ganlyniad i boeri ar Swyddogion yr Heddlu**.** Cadarnhawyd bod gwersi'n cael eu rhoi i ddisgyblion am ymosod yn gyffredinol.

PB 2160 - cynllun hyfforddiant iechyd a diogelwch. Cadarnhawyd byddai adrodd ar y mater yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona, ymhen pythefnos.

Cafwyd trafodaeth ynghylch y defnydd o ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol sy'n ymwneud â phobl sydd ar goll. Cynigodd y PG sicrwydd bod pob achos yn cael ei asesu o ran risg i benderfynu a ddylid gofyn am wybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol ac y byddai hyn yn ddewis olaf.

**3. Diweddariad y Prif Gwnstabl**

Diweddariad Gweithredol

Cyflwynodd y PG ddiweddariad am faterion gweithredol allweddol, gan gynnwys digwyddiad gyda drylliau yn Llanelli lle cadwyd tri person yn y ddalfa. Diogelwyd tystiolaeth gan gamerâu fideo a wisgir ar y corff am anghydfod o fewn cymuned deithiol yn y Trallwng. Cafwyd trafodaeth wedyn am effaith camerâu fideo a wisgir ar y corff. Dywedodd CHTh fod y ffilm wedi cael ei gwneud yn ystod wyth achos o ymosodiadau ar swyddogion yr heddlu yn ystod y ddwy wythnos flaenorol. Nodwyd bod ffilmiau o'r fath yn cael eu monitro a'u rhannu ar gyfer hyfforddiant diogelwch swyddogion. Roedd tri o'r ymosodiadau ar swyddogion yr heddlu yn achosion o boeri. Roedd yr heddlu yn adolygu ei bolisi ar ddefnyddio cyflau poer ar y pryd. Erfyniodd CHTh am gael strategaeth gohebu gadarn ynghlŷn â hyn, fel bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r angen am gyflau poer, pe bai'r Heddlu'n penderfynu eu cyflwyno. Cydnabu'r PG hyn; gan nodi mai diffyg ymwybyddiaeth gan y cyhoedd oedd y rheswm am ohirio'r cynllun peilot.

Amlygodd y PG y 'Diwrnod Gweithredu' a ddigwyddodd yn ddiweddar oedd yn golygu cydweithio rhyngweithiol llwyddiannus gydag asiantaethau partner, cadetiaid a chwnstabliaid gwirfoddol, gan gynnwys amharu'n sylweddol ar gadwyni cyflenwi cyffuriau.

Roedd y PG, y DBG a'r PGC wedi cynnal nifer o sioeau teithiol gyda staff ynghylch y cynllun cyflwyno. Cynlluniwyd 2 arall ar gyfer pob ardal reoli a'r Pencadlys. Rhannodd y PG enghraifft o gynllun maes busnes a ddatblygwyd gan yr Uned Cymorth Busnes, gan nodi y byddai hwn yn cael ei rhannu ar draws yr Heddlu fel enghraifft o arfer da, i nodi sut mae pob adran yn cyfrannu at gynllun yr Heddlu.

Ceisiodd CHTh sicrwydd y byddai mynychu sioeau teithiol a chymryd rhan mewn diwrnodau gweithredu yn cael eu gweld fel busnes arferol a'u bod nhw ddim yn costio'n fwy oherwydd yr oriau ychwanegol. Cadarnhaodd y PG mai hon oedd ei neges i'r staff.

Adroddodd y PG hefyd bod sioeau teithiol iechyd meddwl a lles diweddar wedi cael croeso cadarnhaol. Lansiwyd Ymgyrch Mars am gamddefnyddio grym a chynrychiolwyd yr heddlu mewn cyfarfodydd  Ffederasiwn yr Heddlu a Chymdeithasau Defaid.

Diweddariad Sefydliadol

Cadarnhaodd y PG nad oedd newid yn nifer y staff a'r swyddogion sy'n cael eu hatal ar hyn o bryd.

## 4. Diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

<u>Lleol</u>

Dywedodd CHTh ei fod wedi meddwl dros ei flwyddyn gyntaf yn y swydd ac wedi rhoi ffocws o'r newydd i'w swyddogaeth. Cynlluniwyd diwrnod ymgysylltu yn y Drenewydd ar gyfer yr wythnos ganlynol, a chynhlir un un cyn bo hir yng Nghaerfyrddin. Roedd ymgysylltu â chynghorwyr cymuned newydd ar y gweill, i'w llongyfarch a'u croesawu a'u gwahodd i gyfarfod ar ddyddiau ymgysylltu sydd i ddod. Dywedodd CHTh y byddai ei swyddfa'n hysbysu Timau Plismona Bro leol am ei ddigwyddiadau ymgysylltu yn y dyfodol. Cytunwyd y dylid rhannu hyn gyda Rheolwyr yr Uned Reoli Sylfaenol (URS) ac y byddai'r PG yn gofyn i ringylliaid Timau Plismona Bro i fynychu.

**Cam gweithredu: Swyddog Ymgysylltu Cymunedol SCHTh i rannu rhestr digwyddiadau ymgysylltu cymunedol y Comisiynydd gyda Rheolwyr yr URS a'r Timau Plismona Bro.**

## 5. Materion yn Codi

### *a. Cefnogaeth Brake 2016-17*

Nododd aelodau adroddiad Brake 2016/17 am wasanaethau cefnogi dioddefwyr gwrthdrawiadau ar y ffordd. Cytunwyd eu bod nhw'n dal i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr am fuddsoddiad gweddol fach gan Heddlu Dyfed-Powys, a doedd dim gwrthwynebiad i barhau gyda hyn. Cytunwyd y dylid rhannu'r adroddiad gyda Goleudy a'r Uned Plismona'r Ffyrdd, ac y dylid ymateb i Brake a diolch iddynt am yr adroddiad ac am eu cefnogaeth gyson.

**Penderfyniad: Bod Heddlu Dyfed-Powys yn parhau i gyfrannu'n ariannol i Brake i gefnogi'r gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr gwrthdrawiadau ffordd ar gyfer 2017/18.**

**Cam gweithredu: Rhannu adroddiad Brake 2016/17 am wasanaethau cefnogi dioddefwyr gwrthdrawiadau ar y ffordd 2016/17 gyda Goleudy a'r Uned Plismona'r Ffyrdd ac ymateb i Brake a diolch iddynt am yr adroddiad ac am eu cefnogaeth gyson.**

Nododd CHTh hefyd fod Goleudy, y gwasanaeth gofal i ddioddefwyr a thystion newydd wedi creu argraff bositif iawn arno.

***b. Y Gynhadledd Genedlaethol ar gyfer Troseddau Beiciau***

Tynnodd CHTh sylw'r PG at y gynhadledd. Dywedodd y PG na fyddai Heddlu Dyfed-Powys yn cael ei gynrychioli yn y digwyddiad oherwydd maint gymharol isel y troseddau beicio a gafwyd gan Heddlu Dyfed-Powys.

***c. Craffu Cefnogol***

Cyflwynodd CB drosolwg o'r cynnig y byddai SCHTh yn cynnal gwaith craffu a seilir ar risg o fewn yr Heddlu. Croesawodd CHTh a'r PG y cynnig, gan gydnabod y byddai'r gwaith yn rhoi sicrwydd annibynnol am wasanaethau i'r cyhoedd. Roedd y PG o'r farn y byddai weithiau'n fuddiol i SCHTh weithio gyda swyddogion gweithrediadau, ac roedd yn hapus i hwyluso hyn. Gofynnod CHTh pam nad oedd y cynnig wedi nodi unrhyw oblygiadau oedd yn perthyn i arian nac adnoddau. Cadarnhaodd CM y byddai'r ymagwedd yn dylanwadu ar gynlluniau gwaith SCHTh ac felly byddant yn cael eu gweithredu o fewn yr adnoddau presennol.
**Penderfyniad: Bod SCHTh yn gweithredu rhaglen craffu gefnogol gyda'r Heddlu.**

**6. Unrhyw Fusnes Arall**

***a. Gohebiaeth a gafwyd gan Brandon Lewis AS, Gweinidog Gwlad dros Blismona a'r Gwasanaeth Tân ynghylch gweithredu Ymholiad Leveson.***

Daeth CHTh â'r ohebiaeth i sylw'r PG, gan godi pryder mai HDP oedd un o'r ychydig heddluoedd nad oedd yn cydymffurfio â'r gofyniad i gyhoeddi cysylltiad Prif Swyddogion â'r wasg. Cadarnhaodd y PG fod y mater yn cael sylw ac y byddai gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi ar wefan yr Heddlu'n fuan.

***b. Gwefan***

Mynegodd CHTh rwystredigaeth ynghylch yr oedi wrth lansio'r wefan. Ebrill 1af oedd y dyddiad gwreiddiol a gytunwyd ar gyfer y lansio a chafodd hyn ei ohirio tan ddiwedd Mai. Pwysleisiodd CHTh y dylai gwefan SCHTh a gwefan yr Heddlu gael eu cyflymu a chael eu lansio'n llawn yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 12 Mehefin.

***c. Ymchwil Cam-drin Pobl oedrannus***

Gofynnodd CHTh i'r Heddlu enwebu cynrychiolydd gweithredol ar gyfer Panel Ymgynghorol Ymchwil Cam-drin Pobl Oedrannus a gynhelir gan Brifysgol Aberystwyth a chytunodd y PG.

**Cam gweithredu: Yr Heddlu i gadarnhau enw cynrychiolydd gweithredol y Panel Ymgynghorol Ymchwilio Cam-drin yr Henoed.**

***d. Cydweithio ag Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru***

Cyflwynodd y PSA gynnig i ddatblygu achos busnes i ystyried yr opsiynau sydd ar gael i gynnig pencadlys Heddlu Dyfed-Powys yn ganolfan newydd bosib ar gyfer canolfan gyswllt Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a gofynion hyfforddi/swyddfa gysylltiedig ar ei chyfer. Roedd SCHTh o'r farn y byddai o les i ardal Heddlu Dyfed-Powys i ddod â'r ddau sefydliad i un safle i weithio ochr yn ochr â'i gilydd, ond, fodd bynnag, pwysleisiodd na fyddai hyn yn golygu lleihau canolfannau cyswllt ar y cyd ac na fyddai perygl i swyddi yng nghanolfan gyswllt Heddlu Dyfed- Powys. Cytunwyd y dylid ystyried y mater ar frys gan fod Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru eisiau gwneud penderfyniad mor fuan ag sy'n bosib.

Roedd y CHTh yn awyddus i drafod hyn gan ei fod o'r farn y byddai adleoli'n esgor ar fwy o gyfleoedd ar gyfer ceisiadau ariannol ar y cyd.

Pwysleisiodd y PSA y byddai achos busnes yn cael ei ddatblygu'n unol â model 5 busnes achos y Trysorlys, ac y bwriedir sicrhau bod achosion busnes yn y dyfodol yn cael eu seilio ar y model hwn, er mwyn datblygu achosion cadarn a seilir ar dystiolaeth ar gyfer y proses penderfynu.

**Penderfyniad: Bod adnodd penodol yn cael ei ddyrannu am gyfnod o 10 wythnos, mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Ystadau a'r Prif Swyddog Cyllid i ddatblygu'r achos busnes ar gyfer adleoli Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ym Mhencadlys Heddlu Dyfed-Powys.**

**Penderfyniad: Bod Model Achos 5 Achos Busnes yr Heddlu yn cael ei fabwysiadu gan y Bwrdd Plismona.**

***e. Gwasanaethau cyfreithiol***

Dywedodd y PG fod Heddlu Dyfed-Powys wedi diogelu gwasanaethau cyfreithiwr o asiantaeth ac yn bwriadu recriwtio un arall i gyflenwi ar gyfer pob absenoldeb staff cyfredol. Ceisiodd CHTh sicrwydd y byddai'r cydweithrediad gyda Heddlu De Cymru a Heddlu Gwent ynglŷn â'r gwasanaethau cyfreithiol yn cael ei feincnodi yn erbyn opsiynau eraill. Dywedodd y PG fod cymariaethau yn cael eu gwneud gyda Siambrau adnabyddus a bod gwariant manwl ar y cyngor cyfreithiol allanol yn ystod y tair blynedd diwethaf yn cael ei goladu. Cytunwyd y byddai'r achos busnes ar gyfer cydweithrediad gwasanaethau cyfreithiol gael ei ystyried mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona mor fuan ag sy'n gyfleus. Mynegodd CHTh bryder am fod yr achos yn cael ei ddatblygu gan y rhai oedd yn gysylltiedig â'r darpar gydweithrediad, ac annogodd gael achos busnes cadarn. Dywedodd CM petai'r achos busnes yn cael ei gymeradwyo, byddai angen i gytundeb cydweithredu adran 22A fod yn ei le.

**Penderfyniad: Cyflwyno'r achos busnes ar gyfer cydweithredu â'r gwasanaethau cyfreithiol mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona mor fuan ag sy'n bosib.**

***f. Strwythur Llywodraethu***

Ceisiodd CM eglurhad am bryd y cytunwyd a lledaenwyd strwythur llywodraethu newydd yr Heddlu. Roedd y PG o'r farn y byddai'r lefel sy'n is na'r Prif Swyddogion ar gael o fewn pedair i chwe wythnos.

***g. Gohebiaeth gan Heddlu Swydd Hampshire am Gyfiawnder Adfero (CA)***

Rhannodd CHTh yr ohebiaeth gyda'r PG, a gofynnodd a oedd y cynnig i ddiddymu rhybuddion syml wedi cael ei ystyried. Dywedodd y PG fod arweiniad a strategaeth gwaredu tu allan i'r llys yn cael eu paratoi gan y Cyfarwyddwr Cyfiawnder Troseddol i'w hystyried gan y Gyfarwyddwr Cynorthwyol Bwrdd Cyfiawnder Troseddol lleol ym mis Gorffennaf. Roedd CHTh o'r farn y byddai angen cael rhybuddion syml nes sefydlu mecanweithiau eraill a bod eisiau ymchwilio mwy o opsiynau CA. Cytunodd y PG i rannu'r ohebiaeth gyda gweithlu RJ ar gyfer ymateb.

**Cam gweithredu: Yr Heddlu i baratoi ymateb i ohebiaeth Heddlu Swydd Hampshire ynglŷn â rhybuddion syml a rhannu hyn gyda CHTh cyn ei gyflwyno.**

***h. Ymweliad yr Ysgrifennydd Parhaol â Heddlu Dyfed-Powys***

Gofynnodd CM i'r agenda ar gyfer ymweliad arfaethedig yr Ysgrifennydd Parhaol â Heddlu Dyfed-Powys gael ei baratoi'n derfynol.

Cytunwyd y byddai CHTh, y PG a Dirprwy Brif Gwnstabl Cymru yn mynychu, a dylid hwyluso teithiau o Goleudy, yr Uned Cyfathrebu a Seibrdroseddu yn ogystal â hwyluso mewnbwn o brosiect Syria.

***i. Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu***

Cododd PSA gwestiwn am unrhyw ariannu oedd ar gael gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu prentisiaethau. Er na fyddai prentisiaethau'n cael eu lansio gan yr Heddlu tan y flwyddyn ariannol nesaf, roedd gwaith yn mynd ymlaen ar gyfer paratoi Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu, ac felly awgrymodd y PSA y dylid meintioli cost y gwaith, er mwyn cyflwyno cais i adennill rhai o'r costau hynny. Cytunodd CHTh a'r PG i hyn.

**Cam gweithredu: PSA i gysylltu ag AD i feintioli'r costau gwaith paratoadol ar gyfer prentisiaethau er mwyn cyflwyno cais i adennill y costau gan Lywodraeth Cymru.**

Ymadawodd NJW â'r cyfarfod.

***j. Newidiadau Rota***

Cododd CHTh y mater o newidiadau rota a holodd a werthuswyd yr effaith ar staff a chymunedau, gan fod pryderon wedi cael eu codi gyda CHTh. Cadarnhaodd y PG ei fod wedi galw am werthusiad chwe wythnos o adolygu'r rotas, galw, ymateb ac adborth gan y gymuned. Cytunwyd y byddai SCHTh yn rhannu unrhyw bryderon cymunedol yr oedd yn gwybod amdanynt. Byddai canlyniadau'r gwerthusiad, a groesawyd gan CHTh, ar gael i'w cyflwyno i gyfarfod y Bwrdd Plismona ymhen pedair wythnos.

Cytunwyd nad oedd digon o ohebiaeth am newidiadau'r rota wedi cael ei rhyddhau, a bod hyn wedi arwain at ddealltwriaeth wan yn y gymuned am y rhesymau dros y newidiadau a'u heffaith. Pwysleisiodd y PG nad lleihau nifer y swyddogion oedd bwriad y newidiadau; ond cynyddu hygyrchedd. Dywedodd y PG nad oedd digon o staff wedi eu lleoli yn y gorsafoedd yn y rhannau allanol ers rhai blynyddoedd. Cododd CHTh hefyd gwestiwn am y polisi ar gyfer cerbydau ar gyfer criw unigol. Nododd y CC y cynhaliwyd asesiadau risg deinamig i sicrhau bod swyddogion yn aelodau 'criwiau dwbl' pan fo angen.

**Cam gweithredu: Gwerthusiad chwe wythnos o rotas newydd i'w gyflwyno yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ymhen pedair wythnos.**

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 23/05/1 | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Penderfyniad** | **Crynodeb o'r Penderfyniad** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 2161** | **Adolygiad o'r defnydd o wasanaethau Oedolion Priodol i fod ar gael ar gyfer cyfarfod y Bwrdd Plismona nesaf, gan gynnwys gwasanaethau gwirfoddol a thaledig a chostau teithio.** | **Prif Arolygydddros Dro Dalfeydd** |
| **PB 2162** | **CHTh i godi sylwadau data arbedion Cwmni TGCh yr Heddlu gyda Bwrdd Cwmni TGCh yr Heddlu** | **CHTh** |
| **PB 2163** | **Swyddog Ymgysylltu â'r Gymuned SCHTh i rannu rhestr o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned y Comisiynydd gyda Rheolwyr URS a'r Timau Plismona Bro.** | **Swyddog Ymgysylltu SCHh** |
| **PB 2164** | **Rhannu adroddiad Brake 2016/17 am Wasanaethau Cefnogi Dioddefwyr** | **MH** |

| | | |
|---|---|---|
| | **Gwrthdrawiadau ar y Ffordd 2016/17 gyda Goleudy a'r Uned Plismona'r Ffyrdd, ac anfon ymateb i Brake a diolch iddynt am yr adroddiad ac am eu cefnogaeth gyson.** | |
| **PB 2165** | **Yr Heddlu i gadarnhau enw cynrychiolydd gweithredol y Panel Ymgynghorol Ymchwilio Cam-drin yr Henoed.** | **AE** |
| **PB 2166** | **Cyflwyno'r achos busnes ar gyfer cydweithredu â'r gwasanaethau cyfreithiol mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona mor fuan ag sy'n bosib.** | **Cyfarwyddwr Cyllid** |
| **PB 2167** | **Yr Heddlu i baratoi ymateb i ohebiaeth Heddlu Swydd Hampshire ynglŷn â rhybuddion syml a rhannu hyn gyda CHTh cyn ei gyflwyno.** | **Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfiawnder Troseddol** |
| **PB 2168** | **PSA i ymgysylltu ag AD i feintioli costau'r gwaith paratoadol ar gyfer prentisiaethau er mwyn cyflwyno cais i adennill y costau gan Lywodraeth Cymru.** | **PSA** |
| **PB 2169** | **Gwerthusiad chwe wythnos o rotas newydd i'w gyflwyno yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ymhen pedair wythnos.** | **Uwch Arolygydd Plismona Lifrog** |